

ECAD7004C: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?


Sesiwn 12

Rheoli Data

1. Ystyriaethau moesegol rheoli data.



- ▶ Mae pob ymchwil ac ymholi yn cynnwys delio â data.
- ▶ Gall y data hwn fod ar sawl ffurf wahanol e.e. canlyniadau arolygon, arsylwadau neu gyfweiliadau.
- ▶ Mae rheoli'ch data ymchwil yn foesegol yn holl bwysig i'r broses ymchwil.
- ▶ Yn benodol, mae sicrhau eich bod yn ystyried y ffordd orau o **greu, storio, diogelu, rhannu a chadw** eich data yn hanfodol.



2. Ystyriaethau allweddol



Rhaid i arferion ymchwil sicrhau bod data a chofnodion ymchwil:

- ▶ Yn fanwl gywir, yn gyflawn, yn ddilys ac yn ddibynadwy
- ▶ Yn adnabyddadwy, adferadwy a hygyrch
- ▶ Wedi'u cadw mewn modd diogel
- ▶ Wedi'u cadw mewn modd sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- ▶ Ar gael i eraill yn unol ag egwyddorion moesegol priodol ac egwyddorion rhannu data a mynediad agored
- ▶ Yn gymesur â buddiannau cyfiawn a diogelwch cyfranogwyr dynol mewn data ymchwil.

(Datganiad Rheoli Data Ymchwil y Drindod Dewi Sant, 2018)

Storio'ch data ymchwil

- ▶ Rhaid i chi sicrhau eich bod yn storio'ch data ymchwil yn ddiogel.
- ▶ Er enghraifft, gallwch ddefnyddio dyfeisiau electronig sy'n cael eu hamddiffyn gan gyfrinair ac sy'n amgryptio'r data.
- ▶ Gallwch osgoi defnyddio dyfeisiau storio cludadwy, fel cofau bach.
- ▶ Ni ddylid anfon data drwy'r e-bost neu fathau eraill o gyfrwng sy'n gallu cael eu hacio.
- ▶ Dylid cadw copïau caled o unrhyw gofnodion ar safle diogel.
- ▶ Dylai pob aelod o'r tîm ymchwil ddeall sut i ddiogelu'r data.
- ▶ Gweler BERA (2018:25).



Cydymffurfio: y rheoliad diogelu data cyffredinol (GDPR) a'r ymchwil

Egwyddorion craidd GDPR yw egwyddorion rheoli data ymchwil foesegol:

- ▶ Casglu dim mwy o ddata nag sydd eu hangen gan unigolyn at y dibenion y caiff eu defnyddio ar eu cyfer;
- ▶ Casglu data personol yn deg gan yr unigolyn drwy roi rhybudd iddo o'r casgliad, a'i ddiben penodol;
- ▶ Cadw'r data heb fod yn hwy nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y diben penodedig hwnnw;
- ▶ Cadw data yn saff a diogel;
- ▶ Darparu copi i unigolyn o'i ddata personol os yw'n gofyn amdano.

Datganiad rheoli data ymchwil YDDS

- ▶ Dylech hefyd gyfeirio at y ddogfen hon yn eich ffurflen moeseg.

Section	Indicative guide to word count (this is not prescriptive)
Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwil • Y mater a oedd o ddiddordeb i mi oedd.. • Oherwydd yn fy ysgol i.. • Yn fy nosbarth ...	100-120
Cyd-destun yr ymchwil (disgrifio cyd-destun y lleoliad yn gryno) • Yn fy nosbarth ... • Trafodais hyn gyda fy mhartner... • Ein cwestiwn ymchwil yw ...	100-120
Trosolwg byr o lenyddiaeth berthnasol (cyflwynwch syniadau cyfredol yn gryno o'r llenyddiaeth) • Edrychais ymhellach ar hyn drwy ddarllen llyfrau, erthyglau, dogfennau llywodraeth a deunyddiau eraill ar-lein. Beth ddangosodd hyn i mi oedd ... • Yn benodol, noda [enw] ... • Ond dywed [enw] .. Cefnogodd yr ymchwil yma ein cwestiwn ymchwil drwy... (neu i'n helpu i fireinio ein cwestiwn i ...)	900

Esboniad o'ch cynllun Astudiaeth Gwers • Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yw ymchwil Astudiaeth Gwers sy'n fath o ymchwil gweithredol ... Ystyr ymchwil Astudiaeth Gwers yw ... • Y dulliau o gasglu data a ddefnyddir yw: arsylwi (nad ydynt yn cyfranogi), grwpiau ffocws, nodiadau adfyfyriol. • Mae arsylwi yn ... (cynnwys?, ffurf dderbyniol o gasglu data? Data ansoddol neu'n feintiol ?) • Mae'r arsylwadau yn cael eu nodi ar ffurf... • Casglwyd sylwadau wrth blant yn defnyddio ...	900
Ystyriaethau moesegol Mae ystyriaethau moesegol yn gysylltiedig a gwneud gwaith ymchwil mewn dosbarth, e.e.... (cyswllt gyda'r Ffurflen Foeseg)	100-150
Canlyniadau Astudiaeth Gwers 1 a dadansoddiad • Ym mha ffordd wnaeth y plant gyflawni nod y wersi? (Dysgu'r plant, meddwl ac ymgysylltu) • Sut y gallai'r wers gael ei wella ? (Diwygio'r wers ar gyfer y dosbarth nesaf) • Beth wnaethon ni ddysgu o'r profiad hwn? (Mae angen i ni addasu ein offer ymchwil i gasglu tystiolaeth gwell?) Canlyniadau Astudiaeth Gwers 2 a dadansoddiad • Ym mha ffordd wnaeth y plant gyflawni nod y wersi? (Dysgu'r plant, meddwl ac ymgysylltu) • Sut y gallai'r wers gael ei wella? (Diwygio'r wers ar gyfer y dosbarth nesaf neu ar gyfer addysgu yn y dyfodol) • Beth wnaethon ni ddysgu o'r profiad hwn ? (Mae angen i ni addasu ein offer ymchwil i gasglu gwell tystiolaeth i rannu ag eraill?) Grwpiau o dri – Canlyniadau Astudiaeth Gwers 3 a dadansoddiad os yn berthnasol (+500 gair)	1300-1700

Trafodaeth ar ganfyddiadau ymchwil mewn perthynas â llenyddiaeth ac ymchwil cysylltiedig • Beth wnes i ddarganfod ? • Beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer fy nosbarth?	400-580
Casgliad [Archwilio'n feirniadol eich gwersi ymchwil, er enghraifft, oedd y dull o gasglu data a ddefnyddiwyd yn ddibynadwy? Pa mor ddilys oedd y dull a ddefnyddiwyd? All y canfyddiadau gael eu cyffredinoli?] • Cryfderau a chyfyngiadau'r dulliau A wnes o beilota'r dulliau? A wnaeth hyn helpu? • Beth fyddaf yn ei wneud yn fy mhrofiad ysgol nesaf?	600-730
Argymhellion [Pa argymhellion y byddech yn eu gwneud yng ngoleuni eich ymchwil? Sut y gallai'ch canfyddiadau gael eu datblygu i lywio ymchwil pellach?] • Sut y bydd hyn yn fy helpu i symud ymlaen ? • Os byddaf yn gwneud ymchwil i astudiaethau wers eto hoffwn ..	200-300
Rhestr gyfeirio (gan ddefnyddio system Harvard) Atodiadau	

Cyflwyno'r Aseiniad

Bydd yr aseiniad yn cael ei gyflwyno i Turnitin ar (neu cyn) yr 21ain o Chwefror 2020 mewn dwy adran:

Adran 1 - Tudalen deitl/prif destun traethawd/rhestr gyfeirio

Adran 2 - unrhyw atodiadau (gan gynnwys cynlluniau gwersi, taflenni arsylwi, taflenni myfyrio, cwestiynau cyfweiliad, taflen wybodaeth/sgript)

Datblygu eich
llais academaidd.

Pa wahaniaethau sydd rhwng arddulliau ysgrifennu newyddiadurol/academaidd?

- ▶ Tôn
- ▶ Diben
- ▶ Cynulleidfa
- ▶ Tystiolaeth
- ▶ Awdurdod
- ▶ Canolbwyntio
- ▶ Craffu
- ▶ Dadansoddiad

Ysgrifennu ar lefel Meistr

Dylai ddangos ...

- ▶ Tystiolaeth ymchwil
- ▶ Dadansoddi beirniadol
- ▶ Synthesis
- ▶ Meistrolaeth

Dylai gynnwys...

- ▶ Adolygu
- ▶ Dadansoddi
- ▶ Cyfodi
- ▶ Canolbwyntio

Adolygiad llenyddiaeth

Dibenion adolygiad llenyddiaeth

- ▶ Integreiddio a chrynhof'r dystiolaeth empeiraidd am y cwestiwn ymchwil hwn
- ▶ Aseswch yn feirniadol gyflwr cyffredinol y wybodaeth ar y pwnc hwn, a'r offer damcaniaethol a chysyniadol sydd wedi neu y gellir eu defnyddio i'w archwilio
- ▶ Lleolwch eich astudiaeth mewn perthynas â'r llenyddiaeth


Punch and Oancea, 2014

Defnyddio'r Llenyddiaeth

- ▶ Mae'n darparu cefndir damcaniaethol i'ch astudiaeth;
- ▶ Yn eich helpu i sefydlu'r cysylltiadau rhwng yr hyn rydych chi'n bwriadu ei archwilio a'r hyn sydd eisoes wedi'i astudio;
- ▶ Yn eich galluogi i ddangos sut mae'ch canfyddiadau wedi cyfrannu at y corff presennol o wybodaeth yn eich proffesiwn ac i integreiddio'ch canfyddiadau i hyn.

Adolygiad Llenyddol

- ▶ Nid yw'n... grynodedb syml o bopeth rydych wedi'i ddarllen ar y pwnc
- ▶ ddisgrifiad cronolegol o'r hyn a ddarganfuwyd yn eich maes



Beth yw
adolygiad
llenyddol?

A literature review is a **select analysis of existing research** which is relevant to your topic, showing how it relates to your investigation. It **explains** and **justifies** how your investigation **may help answer** some of the questions or gaps in this area of research.

A longer literature review **may have headings** to help group the relevant research into **themes** or **topics**. This gives a focus to your **analysis**, as you can group similar studies together and **compare and contrast** their approaches, any **weaknesses or strengths** in their methods, and their findings.

(Reid et al., 2012)

Adolygiad Beirniadol o Lenyddiaeth

- ▶ Ar Lefel 7, mae'r adolygiad llenyddiaeth yn rhoi darlun i'r darllenydd o gyflwr gwybodaeth ac o gwestiynau mawr yn y pwnc.

The furniture sale catalogue, in which everything merits a one-paragraph entry no matter how skilfully it has been conducted: Bloggs (1975) found this, Smith (1976) found that, Jones (1977) found the other, Bloggs, Smith and Jones (1978) found happiness in heaven.

Haywood and Wragg, 1982: 2

Cyfeirnod

- ▶ Defnyddiwch system Cyfeirio - Cyfeirio Harvard
- ▶ Edrychwch arnyn nhw fel nodiadau llwyfan - dylai eich brawddeg wneud synnwyr gyda'r wybodaeth gyfeirio neu hebddi.

Meddyliwch am y mathau o ddatganiadau rydych chi'n eu gwneud ...

- ▶ Allwch chi ei brofi?
- ▶ Beth mae eich data yn ei ddangos?

- ▶ Sylwais ar blant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu'n hyderus, a oedd yn amlwg yn gwella eu datblygiad iaith. Nododd Vygotsky (1962, t2) bod 'a learners Zone of Proximal Development is significantly improved through social communication', ac mae hyn yn cefnogi'r syniad hwn.

- ▶ **Sylwais ar blant yn chwarae gyda'i gilydd** ac yn cyfathrebu'n hyderus, a oedd yn amlwg yn gwella eu datblygiad iaith. Nododd Vygotsky (1962, t2) bod 'a learners Zone of Proximal Development is significantly improved through social communication', ac mae hyn yn cefnogi'r syniad hwn.

- ▶ Sylwais ar blant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu'n hyderus, a oedd yn amlwg yn gwella eu datblygiad iaith. Nododd Vygotsky (1962, t2) bod 'a learners Zone of Proximal Development is significantly improved through social communication', ac mae hyn yn cefnogi'r syniad hwn.

Newid persbectif ychydig ...

Mae tystiolaeth empeiraidd yn awgrymu y gall chwarae cydweithredol wella datblygiad iaith plant. Mae'r dystiolaeth hon yn cydberthyn â theori Vygotsky's (1962) o'r 'Zone of Proximal Development' (ZPD), lle gall rhyngweithio plentyn â phlant eraill fod yn ddylanwadol wrth ymestyn ei ddatblygiad unigol, yn enwedig yn ieithyddol.

Problemau gyda Data Ffynhonnell Eilaidd

- ▶ Dilysrwydd a dibynadwyedd - mae dilysrwydd yn debygol o amrywio o ffynhonnell i ffynhonnell e.e. mae gwybodaeth y cyfrifiad yn debygol o fod yn fwy dilys a dibynadwy na gwybodaeth o ddyddiadur personol.
- ▶ Tuedd bersonol - gall gwybodaeth o ddyddiaduron personol, papurau newydd ac ati fod â phroblem gogwydd personol gan fod yr ysgrifenydd hyn yn debygol o arddangos llai o drylwyrdd a gwrthrychedd nag adroddiad ymchwil efallai.
- ▶ Argaeledd data - gwiriwch a yw'r data y credwch y bydd ei angen ar gael i chi.
- ▶ Fformat - gwiriwch a oes data ar gael yn y fformat gofynnol e.e. a yw eich categorïau ar gyfer oedran yn cyfateb i'r data sydd ar gael?

(Ross and Mathews, 2010)



Thanks for
listening!

Any Questions?

No?
SUPER!

Unrhyw gwestiynau?



